**NorthWalesGoldCard**
**CerdynAurGogleddCymru**

# CANLLAWIAU

*Mae Cerdyn Aur Gogledd Cymru yn rhoi cymorth i bobl chwaraeon talentog yng Ngogledd Cymru sy'n cynrychioli Cymru yn eu chwaraeon. Mae'r cynllun yn cynnig mynediad i gyfleusterau hamdden awdurdod lleol at ddibenion hyfforddi o fewn Sir Fôn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Y Fflint, Gwynedd a Wrecsam. Mae trefniadau arbennig hefyd yn bodoli mewn sefydliadau eraill gan gynnwys Colegau, Prifysgolion a Chlybiau Golff.*

## BETH YW MANTEISION MEDDU AR GERDYN AUR GOGLEDD CYMRU?

1. Mynediad am ddim i gyfleusterau Canolfannau Hamdden chwe Cyngor Sir Gogledd Cymru.
2. Mynediad am ddim i gyfleusterau hamdden Prifysgolion a Cholegau Gogledd Cymru.
3. Pan fyddwch yn cynhyrchu rhaglen hyfforddi ddilys (wedi'i lofnodi gan Swyddog o'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol) byddwch yn cael mynediad i'r gweithgareddau canlynol -
   a. Nofio
   b. Ystafelloedd Ffitrwydd/Ystafelloedd Pwysau
   c. Dosbarthiadau Ffitrwydd
   d. Traciau Athletau Awyr Agored
   e. Gweithgaredd sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'ch chwaraeon (e.e. chwaraewr sboncen = Cyrtiau Sboncen)
4. Mynediad am ddim i Ganolfan Athletau Dan Do Gogledd Cymru yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy i bobl sy'n meddu ar gerdyn aur ac sy'n cystadlu mewn athletau.
5. Mynediad am ddim i rai Clybiau Golff i golffwyr elitaidd
6. Gweithdai ffordd o fyw am ddim a gostyngiadau gan rai cyflenwyr offer a dillad.

## BETH YW'R MEINI PRAWF CYMHWYSTER?

1. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fyw yn un o chwe sir Gogledd Cymru (Sir Fôn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd neu Wrecsam).
2. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn aelod cyfredol o SGWAD GENEDLAETHOL Corff Llywodraethu Chwaraeon Cymraeg. Mae'n rhaid cefnogi hyn drwy ddarparu copïau o lythyrau yn eich gwahodd i ymuno â'r sgwad.
3. Mae'n rhaid i ymgeiswyr nad oes gan eu chwaraeon gystadlaethau rhyngwladol a/neu sy'n cystadlu fel unigolyn, fod wedi gorffen yn gyntaf, ail neu'n drydydd mewn pencampwriaeth Cymraeg, wedi'i drefnu gan gorff llywodraethu cenedlaethol y chwaraeon (O.N. Nid cystadlaethau'r Urdd na chystadlaethau ysgolion cenedlaethol) yn ystod y 12 mis diwethaf.
4. Mae'n rhaid i golffwyr talentog fod yn aelod cyfredol o Sgwad Cenedlaethol Undeb Golff Cymru i gael mynediad i glybiau golff. (Rhaid iddynt hefyd fod yn aelod o unrhyw Glwb Golff yng Ngogledd Cymru).
5. Mae'n rhaid bod corff llywodraethu eich chwaraeon yn cael ei gydnabod gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

## BETH YW'R BROSES O WNEUD CAIS?

1. Gwiriwch y canllawiau hyn i sicrhau eich bod yn bodloni'r meini prawf.
2. Llenwch y ffurflen gais atodol.
3. Mae'n rhaid i'r ffurflen gais gael ei llofnodi gan y Swyddog Datblygu Rhanbarthol NEU gan Swyddog Datblygu Chwaraeon Penodol Corff Llywodraethu Cenedlaethol eich chwaraeon (NGB).
4. Mae'n rhaid i chi anfon y canlynol efo'ch ffurflen gais –
5. Copïau o lythyrau yn eich gwahodd i ymuno â sgwad NEU dystiolaeth gefnogol eraill o'ch cyraeddiadau.
6. Dau lun pasport.
7. Siec am £5.00. Sieciau'n daliadwy i'r sefydliad a enwir yn y pecyn.
8. Dylai'r ffurflen gael ei hanfon at y Swyddog Datblygu Chwaraeon yn y cyfeiriad a ddarperir yn y pecyn.

9. Bydd ceisiadau sydd heb gael eu llenwi'n iawn yn cael eu hanfon yn ôl atoch er mwyn i chi allu darparu'r wybodaeth i gyd.
10. Gall gymryd hyd at un mis i brosesu cais.
11. Os bydd y meini prawf perthnasol yn cael eu bodloni, bydd cerdyn yn cael ei gyhoeddi.

## BETH YW'R TELERAU A'R AMODAU?

1. Mae'n rhaid i ddeilydd y cerdyn gydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cyfleusterau. Os bydd cerdyn yn cael ei gamddefnyddio, bydd yr awdurdod lleol yn cadw'r hawl i dynnu'r Cerdyn Aur Gogledd Cymru yn ôl.
2. Ni ellir trosglwyddo'r cerdyn hwn.
3. Mae'n rhaid i'r cerdyn aelodaeth gael ei gyflwyno i'r dderbynfa bob tro y bydd deilydd y cerdyn yn ei ddefnyddio, neu bydd rhaid i'r deilydd dalu'r ffi lawn.
4. Dim ond at ddibenion hyfforddi y gellir defnyddio'r cerdyn. Ni ddylid defnyddio'r cerdyn ar gyfer canolfannau datblygu/rhagoriaeth, sgwadiau neu hyfforddiant sefydliad preifat i leihau'r costau i eraill neu ble mae'n rhaid talu hyfforddwr preifat.
5. Dim ond un archeb ymlaen llaw y gellir ei wneud yr wythnos ar gyfer cyfleusterau y mae'n rhaid eu harchebu. Fel arall, gall deilydd y cerdyn archebu'r cyfleuster 24 awr ymlaen llaw neu alw draw gan obeithio bod y cyfleuster ar gael. Gellir defnyddio pob cyfleuster arall yn ystod yr oriau agor.
6. Gall rhai cyfleusterau ofyn am hyd at 75% o gyfanswm cost cwrt (e.e. sboncen neu fadminton) gan bartner(iaid) hyfforddi deilydd y cerdyn aur.
7. Mae'r cerdyn yn ddilys am 12 mis o'r dyddiad y caiff ei gyhoeddi. I wneud ail gais, bydd rhaid dychwelyd y cerdyn efo ffurflen werthuso wedi'i llenwi yn ogystal â ffurflen gais newydd.

## TELERAU AC AMODAU I OLFFWYR

1. Rhaid i olffwyr fod yn aelod o un o Glybiau Golff Gogledd Cymru.
2. Mae'r Clwb Golff yn cadw'r hawl i gadarnhau eich bod yn aelod o un o Glybiau Golff Gogledd Cymru.
3. Mae'n rhaid cysylltu efo Unigolyn Proffesiynol/Ysgrifennydd y Clwb Golff cyn ymweliad cyntaf deilydd y cerdyn.
4. Mae'n rhaid cysylltu efo unigolyn Proffesiynol/Ysgrifennydd y clwb golff cyn pob ymweliad er mwyn gwneud yn siŵr bod y cyfleusterau ar gael.
5. Mae'r Clwb Golff yn cadw'r hawl i wrthod mynediad os yw'r system yn cael ei chamddefnyddio neu os nad yw rheolau'r clwb yn cael eu parchu.

## CYFYNGIADAU

1. Mae cyfyngiadau o ran oed yn berthnasol ar gyfer rhai cyfleusterau / gweithgareddau. Bydd rhaid i ddeiliaid cardiau gadarnhau hyn cyn iddynt ddefnyddio'r cyfleusterau.
2. Bydd rhaid i ddeiliaid cardiau gael sesiwn gyflwyno ar gyfer rhai cyfleusterau e.e. Ystafelloedd Ffitrwydd. Efallai y bydd rhaid i chi dalu am y gwasanaeth hwn.
3. Efallai na fyddwch yn gallu cael mynediad i rai dosbarthiadau ffitrwydd oherwydd mai nifer cyfyng o leoedd sydd ar gael, neu os yw'r dosbarthiadau hyn yn cael eu cynnal fel rhan o gwrs.
4. Caniateir pob archeb ar ddisgresiwn rheolwr/aig y ganolfan

***Mae'r awdurdod lleol yn cadw'r hawl i ymgynghori ag unrhyw sefydliad, naill ai'n lleol neu'n genedlaethol, mewn perthynas â'r cais hwn er mwyn asesu cynnydd a statws cystadlu cyfredol yr ymgeisydd.***

***Mae'r awdurdod lleol yn cadw'r hawl i wrthod clustnodi Cerdyn Aur Gogledd Cymru.***

### DEDDF DIOGELU DATA 1998

*Mae pob sir yn gyfrifol am reoli data at ddibenion y ddeddf hon. Bydd yr wybodaeth ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio at ddibenion Gwasanaethau Cerdyn Aur Gogledd Cymru a Gwasanaethau Hamdden y Sir. Gellir ei datgelu i adrannau eraill o fewn y 6 Chyngor ac asiantaethau perthnasol eraill yn unol â chofrestriad pob Cyngor o dan y ddeddf*